# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofal Cymru**

**Noyadd Wilym Lodge**
**Aberteifi**
**SA43 2NH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

05/05/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gofal Cymru

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Care Wales (Gofal Cymru) LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio eu gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n derbyn eu gofal gan Gofal Cymru yn hyderus o dderbyn gofal dibynadwy; cyfeillgar a medrus gan weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol; ac sy'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n briodol.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu harwain gan reolwr profiadol sy'n ymwneud yn weithredol â'r gwasanaeth ac sy'n adnabod y bobl yn dda.

Mae rhai trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, ond mae angen eu cryfhau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn llawn.

## Llesiant

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwed.  Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod y sefyllfa freintiedig y maent ynddi drwy weithio yng nghartrefi'r bobl ac maent yn parchu eu heiddo. Fodd bynnag, dywedodd un unigolyn nad yw'r gweithwyr gofal bob amser mor ofalus ag y gallent fod. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod eu cyfrifoldebau i adrodd am unrhyw bryderon diogelu ac maent yn hyderus y byddai eu rheolwyr yn cymryd y mesurau angenrheidiol i ddiogelu'r bobl.

Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:
"*Rwy'n gwerthfawrogi popeth maen nhw'n ei wneud"*
"*Maen nhw'n wych"* a
*"Alla i ddim gweld bai ynddynt; maent bob amser yn siriol; rydyn ni'n cael rhywfaint o dynnu coes".*
Dywedodd y perthnasau am ba mor dda y mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl, gan eu disgrifio fel bod yn rhan o'r teulu. Ategwyd hyn gan y gweithwyr gofal a ddywedodd eu bod yn gwerthfawrogi treulio amser gyda'r bobl yn sgwrsio, dal eu llaw neu wneud i rywun chwerthin.

Mae anghenion y bobl yn cael eu diwallu gan weithwyr gofal sy'n gyfeillgar, yn llawn cymhelliant ac wedi'i hyfforddi'n addas. Mae rhywfaint o hyfforddiant yn hwyr ac mae hyn i'w briodoli i COVID-19. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu adnabod pan fydd y bobl yn sâl. Maent hefyd yn gwybod at bwy y dylent adrodd am unrhyw bryderon.

## Gofal a Chymorth

Mae cofnodion papur yn cael eu cynnal a dywedodd un perthynas wrthym ba mor "*anhygoel*" ydy'r rhain. Gwelsom fod y cofnodion wedi'u hysgrifennu'n glir a'i fod yn hawdd cael yr wybodaeth sydd ei hangen. Mae anghenion gofal a chymorth y bobl wedi'u nodi'n glir, gan ddangos y gofal sydd i'w gynnig ym mhob ymweliad.
Mae amrywiaeth o gynlluniau gofal ac asesiadau risg ac mae'r rhain wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd y gwasanaeth.
Mae cofnodion dyddiol yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth. Rydym wedi gofyn i'r darparwr sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd broffesiynol a gwrthrychol.
Mae gan y gweithwyr gofal amser i ysgrifennu a darllen cofnodion gofal ac maent yn eu hystyried yn ddefnyddiol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i sicrhau bod eu hanghenion iechyd corfforol yn cael eu diwallu. Mae'r gweithwyr gofal yn gallu adnabod arwyddion o niwed pwyso croen a gwybod at bwy y dylent adrodd am unrhyw bryderon. Cysylltir â pherthnasau os oes gan y gweithwyr unrhyw bryderon am y bobl. Mae rhai o'r bobl yn derbyn gofal gan asiantaethau eraill ac mae'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r gweithwyr gofal yn disgrifio eu cydberthynas â nhw fel un da.

Mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy. Ni chollwyd unrhyw ymweliadau. Dywedodd rhai o'r bobl bod gweithwyr gofal weithiau ambell funud yn hwyr ond dim mwy na hynny. Mae gan y gweithwyr gofal ddigon o amser teithio yn rhan o'u rota ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn byw o fewn radiws bach i'w gilydd. Mae'r rheolwyr yn cynnal ymweliadau os oes angen ac mae ganddynt rota ar alwad i ddarparu cymorth i'r gweithwyr gofal y tu allan i oriau gwaith arferol. Dywedodd rhai o'r bobl y byddai'n well ganddynt weld yr un gweithwyr gofal. Fodd bynnag, mae'r rotâu yn dangos lefel uchel o barhad.

Mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg sy'n adlewyrchu'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwerthoedd y gwasanaeth. Dywedodd un berthynas wrthym y rhoddwyd cymorth ychwanegol ar waith ar fyr rybudd a dywedodd eraill wrthym fod y gweithwyr gofal yn casglu siopa a hefyd yn helpu gyda negeseuon eraill i helpu llesiant cyffredinol yr unigolyn.

## Yr Amgylchedd

Nid yw hyn yn cael ei ystyried fel mater o drefn fel rhan o arolygiadau o Asiantaethau Gofal Cartref. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y swyddfeydd yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod lle i'r rheolwr gwrdd â'r staff yn breifat.

Cynhelir asesiadau risg amgylcheddol ar gartrefi'r bobl i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r gweithiwr gofal a'r unigolyn ac i ystyried a oes angen asesiad pellach ar gyfer unrhyw addasiadau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rhai trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer monitro ansawdd. Mae'r adroddiad sicrhau ansawdd yn dangos bod y bobl yn gwbl fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r sylwadau yn cynnwys: *“Mae ansawdd y gofal y mae X yn ei dderbyn yn ardderchog, mae’r gofalwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod X yn hapus ac yn gyfforddus”* a dywedodd un arall "*Rwy'n cael fy nhrin â pharch mawr ac yn teimlo'n gyfforddus gyda'r holl ofalwyr”.*
Nid yw'r adroddiad ansawdd yn rhoi tystiolaeth bod barn y gweithwyr gofal ac eraill wedi'i hystyried. Fodd bynnag, mae adroddiad yn dangos canlyniadau arolwg staff a gynhaliwyd. Mae canlyniadau hwn yn dangos bod mwyafrif y gweithwyr naill ai'n hapus neu'n hapus iawn yn eu rôl.
Mae angen i'r darparwr sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Rheoliadau 73 ac 80 i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn.

Caiff y gweithwyr gofal eu penodi yn dilyn proses recriwtio ddiogel. Mae ffeiliau staff yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen. Yn gyffredinol, mae'n hawdd llywio trwy'r ffeiliau ond maent yn cynnwys llawer o hen wybodaeth sydd wedi dyddio. Bydd y rheolwr yn ystyried ffyrdd o sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael yn hawdd.

Cynhelir goruchwyliaeth ac mae'r gweithwyr gofal yn cael adborth ar eu gwaith. Mae adborth o’r fath yn cynnwys “*Mae Y yn dal i ddarparu gofal o safon uchel”* ac *“yn mynd y tu hwnt i sicrhau bod XX yn cael y gofal sydd ei angen arno”.* Mae cofnodion yn dangos na chynhelir goruchwyliaeth bob tri mis fel y nodir fel gofyniad rheoliadol. Yn ogystal â goruchwyliaeth un i un, mae uwch-weithiwr yn arsylwi ar y gweithwyr gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau i'r safon ofynnol. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a gallant siarad â'u rheolwyr am unrhyw bryderon neu syniadau sydd ganddynt.

Mae hyfforddiant yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn ystyried bod ganddynt yr hyfforddiant sydd ei angen i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn ddiogel. Mae ffeiliau staff yn nodi bod hyfforddiant wedi'i gwblhau mewn ystod o feysydd gan gynnwys gofal strôc a gofal clwyfau. Nid yw hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn y matrics hyfforddi. Rydym wedi gofyn i'r darparwr ystyried hyfforddiant ychwanegol ac arbenigol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw gyda chyflyrau megis clefyd Parkinson.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Disgwyliwn i'r darparwr  gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 20/06/2022'